

Jane Hutt AS/MS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/3258/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Crughywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Tŷ Crughywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

06 Hydref 2020

Cadeirydd annwyl,

Diolch am eich llythyr ar y cyd, dyddiedig 30 Medi, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) a gafodd ei osod mewn cysylltiad â Bil Cam-drin Domestig y Deyrnas Unedig (y Bil). Rydych wedi gofyn tri chwestiwn i mi mewn perthynas â'r LCM.

Rydych wedi gofyn am esboniad pam y bu oedi yn gosod yr LCM hwn gerbron y Senedd, gan y cyflwynwyd y Bil i Dŷ'r Cyffredin ar 3 Mawrth, ond na osodwyd LCM gerbron y Senedd tan 3 Awst. Cyflwynwyd y Bil am ei ddarlleniad cyntaf yn Senedd y Deyrnas Unedig ar 3 Mawrth, ac roedd fy swyddogion mewn trafodaethau parhaus â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig; yn benodol am bwerau'r Comisiynydd Cam-drin Domestig arfaethedig a gallu'r Senedd i graffu ar ei waith. Yna bu'n rhaid i unrhyw waith pellach o edrych ar y Bil yn ei gyfanrwydd ddod i ben wrth i swyddogion yn y Gwasanaethau Cyfreithiol a swyddogion polisi ymateb i'r sefyllfa unigryw yn sgil COVID-19, a gwaith cysylltiedig. Dim ond yn ddiweddar y mae'r gwaith o graffu ar y Bil wedi aildddechrau, ac mae fy swyddogion wedi aildddechrau trafod â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac maent yn ystyried y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'n anffodus na osodwyd yr LCM ar y cychwyn cyntaf oherwydd y gwaith enfawr a grëwyd gan COVID-19, fodd bynnag, rwy'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

credu bellach bod hwn yn amser da i graffu ar y Bil, o gofio bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'n hysbysu yn ddiweddar am eu gwelliannau, a bod y Bil yn symud ymlaen gerbron Tŷ'r Arglwyddi erbyn hyn.

Rydych hefyd wedi gofyn am fanylion y dadansoddiad a wnaed er mwyn penderfynu bod cymalau 3, 65, 66, 68 a 73 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a pham nad yw cymalau 1 a 2 wedi'u cynnwys yn yr LCM. Rydych nodi bod Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Bil yn datgan nad yw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac felly nad oes angen cydsyniad. Rwy'n parhau i gredu bod achos cryf dros ddadlau bod y darpariaethau a nodwyd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Diben cyffredinol y Bil yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar ddiodefwyr, atal cam-drin domestig, gan gynnwys cryfhau'r cymorth i ddiodefwyr camdriniaeth a'u teuluoedd, ac mae hyn yn cael effaith glir ar faterion datganoledig. Rhaid ystyried proses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yng nghyd-destun confensiwn Sewell fel y nodir yn adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r Canllawiau ar Ddatganoli, sef, 'Parliamentary and Assembly Primary Legislation Affecting Wales'. Mae'r canllawiau hynny'n darparu na fydd y Senedd y Deyrnas Unedig yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru. Mae cam-drin domestig yn gyffredinol yn faes datganoledig, ac mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn brawf o hynny.

Gobeithio bod fy llythyr yn egluro'r materion hyn. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich adroddiad y mis nesaf ac, fel y gwyddoch, rwy'n dal yn benderfynol o ddileu pob elfen ar gam-drin domestig ac rwy'n edrych ymlaen at drafod y Bil hwn gydag Aelodau'r Senedd yn ystod y ddadl ar 10 Tachwedd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane', with a horizontal line above it.

Jane Hutt AS/MS

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip